

IWAN LLWYD

Poems in English and Welsh

Near Richmond Bridge

Once, where Walt Whitman
was a centre too dangerous to park
in New Jersey,

I heard a poet who had a way with healing
describe the breathing of diseased lungs
as a million stars being crushed:

it's difficult to snatch such an image
from the grey air of a street in Richmond
on a dull Friday afternoon,

with the planes
showing their shining bellies
as they land to the north;

I have no compass here,
no habitat
only rows and rows

of suburban homes,
and Audis and BMWs
chaining the horizon:

even the woman who ran
the newspaper stand
had no conversation over her headlines;

and the eyes of the girls
chattering away in the Ristorante Murano
are not dancing the salsa

like the girls of Rio and Buenos Aires:
I'll venture back into the smoke then,
and light a cigar.

*Richmond, London
April 2001*

Ger Pont Richmond

Unwaith, lle'r oedd Walt Whitman
yn ganolfan rhy beryg i barcio
yn New Jersey,

clywais feddyg o fardd
yn disgrifio anadl ysgyfaint heintiedig
fel miliynau o sêr yn malu:

mae'n anodd cipio delwedd felly
o awyr lwyd stryd Richmond
ar bnawn Gwener llwm,

ac awyrennau
yn dangos eu botwm bol
wrth lanio tua'r gogledd;

‘does gen i ddim cwmpawd yma,
dim cynefin,
dim ond rhesi ar resi

o strydoedd swbwrbia
ac Audis a BMWs
yn gadwynau am y gorwel:

‘doedd gan hyd yn oed
ddynes y siop bapur newydd
ddim sgwrs dros ben ei phenawdau;

ac nid yw llygaid y merched
sy'n paldaru yn y Ristorante Murano
ddim yn dawnsio'r salsa

fel genod Rio a Buenos Aires:
mentraf i ganol y mwg felly
a thanio sigâr.

Marwnad

(i *DLLW*)

Yn rhy gall i farw, yn eiddil a dall y daeth
i'r lôn dywyll, ac ni allai droi adre'n wyw;
gŵr dirgel a chlên, a'i falchder yn ddewrder caeth

ar ddydd ei gymundeb mawr. Boed iddo fyw
eto'n brasgamu, o'r diwedd, ar allt y groes
a'i nefoedd yn ifanc, dan y glaswellt a'r glaw,

a'i braidd yno o'i amgylch, yn edrych yn ôl ar ei oes,
a gweld yno'n glir yr holl daith, er uwchlaw
trwy'r tywyllwch ni welai ond llygaid ei fam

oedd yn llwch ac yn lleddf; yn llaid oer
cyffredinedd marwolaeth, na foed iddo gloffi ei gam,
na gorffwys un eiliad, cyn derbyn bendith y lloer;

oedd fy ngweddi yn yr ystafell ger ei wely dall,
yn y ty di-gymun, un funud cyn i bob un
bore a golau a nos gyrraedd. Roedd afonydd y fall

yn llifo drwy gledr ei law, a gwelais lun
yn ei lygaid pŵl oedd yn dangos gwaelod y môr.
Dos i dangnefedd rhyfedd y graig, meddwn i,

wrth yr anadl oedd yn ei adael o.

(*Cyfieithiad o "Elegy" gan Dylan Thomas*)

DYLAN THOMAS

Elegy

Too proud to die, broken and blind he died
The darkest way, and did not turn away,
A cold, kind man brave in his burning pride

On that darkest day. Oh, forever may
He live lightly, at last, on the last, crossed
Hill, and there grow young, under the grass, in love,

Among the long flocks, and never lie lost
Or still all the days of his death, though above
All he longed all dark for his mother's breast

Which was rest and dust, and in the kind ground
The darkest justice of death, blind and unblessed.
Let him find no rest but be fathered and found,

I prayed in the crouching room, by his blind bed,
In the muted house, one minute before
Noon, and night, and light. The rivers of the dead

Moved in his poor hand I held, and I saw
Through his faded eyes to the roots of the sea.
Go calm to your crucified hill, I told

The air that drew away from him.